Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 95 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (dccc 3), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau diddymu neu pan fo toriad am fwy na 4 diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 152 (Cy. 32)

# Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

## Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi sydd i'w chodi ar warediadau trethadwy (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017) a wneir ar 1 Ebrill 2025 neu ar ôl hynny.

Y gyfradd safonol yw £126.15 y dunnell, y gyfradd is yw £6.30 y dunnell a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £189.25 y dunnell.

Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2025 yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfraddau a osodir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 o ganlyniad i'r diwygiad a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 95 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (dccc 3), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau diddymu neu pan fo toriad am fwy na 4 diwrnod.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 152 (Cy. 32)

# Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

## Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Chwefror 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *13 Chwefror 2025* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(3) a (6), 46(4), 93 a 94(1) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2025.

### Cymhwyso

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â gwarediad trethadwy (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017) a wneir ar 1 Ebrill 2025 neu ar ôl hynny.

(**1**) 2017 dccc 3.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### Cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi

**3.** Rhagnodir y cyfraddau a ganlyn yn unol ag adrannau 14(3) a (6), a 46(4), o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn y drefn honno—

(a) y gyfradd safonol yw £126.15 y dunnell,

(b) y gyfradd is yw £6.30 y dunnell, ac

(c) y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £189.25 y dunnell.

### Diwygio Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

**4.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024(**1**), ar ôl "neu ar ôl hynny" mewnosoder "ond cyn 1 Ebrill 2025".

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
11 Chwefror 2025

(**1**) O.S. 2024/367 (Cy. 67).